

Sgowtiaid Fforio (14 - 18 mlwydd oed) - Nodiadau Arweinydd

Amcanion

- Deall gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyfrifoldebau Aelodau Cynulliad.
- Deall y broses a ddefnyddir i gyflawni democratiaeth.

Adnoddau

- Trafod syniadau ar post-its* (i'w ddefnyddio gyda gofyniad 1 isod)
- Taflen trefnu Hawl i Holi* (i'w defnyddio gyda gofyniad 2 isod)
- Llyfryn Dy Gynulliad Di*
- Pecyn adnoddau ffug etholiad (i'w ddefnyddio gyda gofyniad 4 isod)
- Pinau ffelt, pensiliau, glud, papur A3, sisyrnau (i'w defnyddio gyda gofyniad 4 isod)

Gofyniad 1:

Lleoedd - Edrych ar ble mae democratiaeth yn digwydd. Ewch i arsylwi cyfarfod cyhoeddus cyngor plwyf, cyngor lleol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig. Trafodwch eich ymweliad o fewn eich uned, gan edrych ar bynciau megis fformat y cyfarfod, ymddygiad y rhai oedd yn cymryd rhan a sut oedd penderfyniadau yn cael ei gwneud.

Prif Weithgaredd:

Gofynnwch i'r Sgowtiaid Fforio drefnu ymweliad â'r Senedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) drwy glicio **yma**.

Yn dilyn eu hymweliad, o fewn yr uned, defnyddiwch y dull *Trafod syniadau ar post-its* i drafod beth welodd pawb.

Gofyniad 2:

Pobl - Edrych ar rai o'r bobl sydd yn cymryd rhan. Ewch ati i wahodd nifer o aelodau llywodraeth leol neu genedlaethol (Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, cynghorwyr lleol ayyb) i gyfarfod â Sgowtiaid Fforio i drafod yn gyffredinol eu rôl ac i drafod sy'n benodol y materion yn effeithio ar bobl ifanc heddiw.

Prif Weithgaredd:

Trefnu i gyfarfod ag Aelod Cynulliad - Defnyddio gwefan y **Cynulliad** i ddod o hyd i'w 5 Aelod Cynulliad. Mae holl fanylion cyswllt yr Aelodau ar y wefan hon.

Trefnwch ddigwyddiad Hawl i Holi gydag Aelodau Cynulliad i drafod eu rôl a'r materion sydd yn effeithio ar bobl ifanc heddiw. Defnyddiwch y *Daflen trefnu Hawl i Holi* i helpu i drefnu'r digwyddiad.



Gofyniad 3:

Pwerau - Edrych ar bwerau rhai o'r sefydliadau. Deall sut y caiff pwerau eu datganoli o Senedd y Deyrnas Unedig i lywodraeth ranbarthol neu leol.

Gofyniad 4:

Proses: Edrych ar y prosesau sydd yn cael eu defnyddio i gyflawni democratiaeth mewn sawl haen o lywodraeth. Cymryd rhan mewn etholiad ar gyfer swydd yn yr Uned.

Prif Weithgaredd:

Yr arweinydd i egluro'r broses sydd yn cael ei defnyddio i ethol Aelodau'r Cynulliad. Mae gwybodaeth i'ch helpu ar gael **yma**.

Eglurwch y bydd y Sgowntiaid yn cymryd rhan mewn ffug etholiad heddiw.

Rhannwch bawb mewn i grwpiau a rhowch becyn adnoddau ffug etholiad i bob grŵp. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i'w dilyn er mwyn cwblhau ymgyrch y grwpiau - bydd angen tua awr ar bob grŵp i gwblhau hyn.

Arweinydd i bennu lliw i bob grŵp i gyd-fynd â'r templed papur pleidleisio sydd yn y pecyn.

Sicrhewch fod gennych fwrdd wedi'i osod yng nghornel yr ystafell gyda phapurau pleidleisio a bocs pleidleisio - mae'r templed papur pleidleisio yn y pecyn adnoddau.

Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'i ymgyrch i weddill y grwpiau.

Unigolion i bleidleisio cyn i'r papurau gael eu cyfri a chyhoeddi'r canlyniad.

